Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

# Gwasanaethau Defnyddio Atwrneiaeth Arhosol a Gweld Atwrneiaeth Arhosol

## Beth yw Defnyddio Atwrneiaeth Arhosol (LPA)?

Mae'r gwasanaeth Defnyddio Atwrneiaeth Arhosol yn caniatáu i atwrneiod a rhoddwyr roi mynediad i sefydliadau i'r crynodeb ar-lein o LPA.

Maent yn creu cod mynediad, a roddir i sefydliadau unigol fel meddygfeydd, cartrefi gofal a banciau.

Gall yr atwrnai neu'r rhoddwr fonitro sut mae'r cod mynediad hwnnw'n cael ei ddefnyddio.

## Beth yw Gweld Atwrneiaeth Arhosol (LPA)?

Mae sefydliadau'n defnyddio'r gwasanaeth Gweld Atwrneiaeth Arhosol ar-lein i gael mynediad at fanylion yr LPA

Mae'r atwrnai neu'r rhoddwr yn rhoi cod mynediad i aelod o staff. Maent yn mynd i'r wefan ac yn mewnbynnu'r cod.

Yna gallant weld yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn LPA y rhoddwr.

## Beth mae'n ei ddweud wrthych chi?

Mae'r crynodeb yn cynnwys:

- a yw'r Atwrneiaeth Arhosol yn ddilys ac wedi'i chofrestru
- manylion y rhoddwr a'r atwrneiod
- sut y gwneir penderfyniadau gan yr atwrneiod
- unrhyw gyfarwyddiadau a dewisiadau
- p'un a all atwrneiod roi neu wrthod caniatâd i driniaeth gynnal bywyd

## Beth yw'r buddion?

- dim angen dod â'r ddogfen bapur i apwyntiadau
- mae'r holl fanylion wedi'u diweddaru, er mwyn sicrhau bod atwrneiod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau er budd gorau
- gellir lawrlwytho crynodeb ar ffurf dogfen PDF
- gall mwy nag un atwrnai ddefnyddio'r LPA ar yr un pryd
- nid oes risg y bydd yr LPA yn cael ei golli

## Beth mae ein cwsmeriaid yn ei ddweud?

- nid yw rhai sefydliadau'n ymwybodol o'r gwasanaeth Gweld Atwrneiaeth Arhosol
- mae'r rhan fwyaf yn gweld bod rhannu'r LPA yn ddigidol yn haws na rhannu'r ddogfen bapur
- defnyddir LPAs gan amlaf gyda meddygon teulu, ysbytai a lleoliadau gofal

## Beth ydym ni'n ei ofyn gennych chi?

- ymgyfarwyddo â'r gwasanaeth Gweld Atwrneiaeth Arhosol, a gofyn i eraill wneud yr un peth
- caniatáu i'r atwrnai neu'r rhoddwr rannu'r LPA yn ddigidol
- annog ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth Gweld Atwrneiaeth Arhosol ymhlith cydweithwyr

**Rhagor o wybodaeth: www.gov.uk/view-lasting-power-of-attorney**

**Noder:**
**Rhoddwr:** rhywun sy'n dewis person arall i wneud penderfyniadau drostynt os na allant wneud hynny eu hunain
**Atwrnai:** y person a ddewisir i wneud y penderfyniadau hynny, neu helpu'r rhoddwr i'w gwneud os gallant